William Nantlais Williams, 1874–1959

Gweinidog (MC), emynydd, golygydd a bardd

Suai'r gwynt, suai'r gwynt
wrth fyned heibio i'r drws;
a Mair ar ei gwely gwair
wyliai ei baban tlws:
syllai yn ddwys yn ei ŵyneb llon,
gwasgai Waredwr y byd at ei bron,
canai ddiddanol gân.

W. Nantlais Williams

Un o blant New Inn oedd Nantlais Williams. Fe'i ganed ar 30 Rhagfyr 1874 yn Llawr-cwrt, Gwyddgrug, ger Pencader, Caerfyrddin, y cyw melyn olaf o nythaid o ddeg o blant Daniel a Mari Williams. Byddai'r teulu'n mynychu moddion gras yng nghapel y pentref ac yno y dechreuodd bregethu ym 1894. Derbyniodd addysg gynnar yn ysgol New Inn, a phan oedd yn ddeuddeg oed fe'i prentisiwyd fel gwehydd gyda'i frodyr. Yna aeth i Ysgol Ramadeg Castellnewydd Emlyn lle'r oedd John Phillips, mab y Parch. Evan Phillips yn brifathro. Wedyn bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Trefeca cyn derbyn galwad i'r unig eglwys y bu'n weinidog arni, sef Bethany, Rhydaman.

Ordeiniwyd ef ym 1901, a bu yn Bethany hyd ei ymddeoliad ym 1944. Yn y cyfnod hwn fe flodeuodd fel pregethwr a bardd a daeth yn boblogaidd ar sail y ddwy grefft. Yr oedd ganddo ddiddordeb mewn barddoniaeth yn ifanc a chyhoeddodd gasgliad o'i waith ym 1898, sef *Murmuron y Nant*. Bu'n cystadlu'n frwd mewn eisteddfodau. Enillodd gadair mewn eisteddfod yn Rhydaman ym 1899, ac yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1902 bu'n gyd-fuddugol ar chwech o delynegion. Ond daeth tro ar fyd, yn llythrennol, pan gafodd dröedigaeth yn ystod Diwygiad

1904–05 a phenderfynodd na fyddai'n cystadlu mwyach. Yr oedd hyn yn sicr yn golled i'r byd ond yn fendith i'r eglwys Gristnogol gan iddo gysegru ei ddoniau er hyrwyddo Efengyl Iesu Grist. Tros y blynyddoedd cyfansoddodd doreth o emynau eneiniedig, llawer ohonynt ar gyfer plant. Y ddau brif gasgliad o'i emynau oedd *Emynau'r Daith* (1949) a *Clychau Seion* (*c*.1952), a chyhoeddodd dri chasgliad o emynau i blant, sef *Moliant plentyn, rhan I* (1920), *Moliant plentyn, rhan II* (1927) a *Clychau'r Gorlan* (1942). Mewn cydweithrediad â chyfeillion cyfansoddodd nifer o ganeuon i blant, ynghyd â gweithiau cerddorol eraill. Ond ni chyfyngai ei olygon i emynau'n unig oherwydd bu'n olygydd *Y Lladmerydd* (1922-26), *Yr Efengylydd* (1916-33), a *Trysorfa'r Plant* (1934-47). Cyhoeddodd ddwy gyfrol o atgofion, sef *Y Deugain Mlynedd Hyn* (1921) ac *O Gopa Bryn Nebo* (1967).

Ar ôl y diwygiad treuliodd Nantlais Williams lawer o amser gyda gŵr a gyrchent i'r cynadleddau efengylaidd fel Keswick a Llandrindod, ac ym 1917 sefydlodd gynhadledd flynyddol o'r un anian yn Rhydaman. Bu bendith fawr ar ei weinidogaeth yno ac arwydd o hynny oedd adeiladu capel newydd ym 1930. Bu hefyd yn ddylanwadol o fewn enwad y Methodistiaid Calfinaidd ac fe'i gwnaed yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol ym 1940. Cyn diwedd ei oes fe dderbyniodd radd MA, er anrhydedd gan Brifysgol Cymru. Prif waith ei fywyd oedd cyhoeddi Iesu Grist fel Gwaredwr trwy gyfrwng ei bregethu, a gwnaeth hynny gydag afiaith. Fe fu'n briod ddwywaith, yn gyntaf, ag Alice Maud Jones a roedd iddo dri o feibion a dwy ferch; bu hifarw hi'n annhymig ym 1911. Wedyn ym 1916 priododd ag Annie Price. Bu farw ar 18 Mehefin 1959, a chladdwyd ei weddillion o flaen capel Bethany, Rhydaman.